**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 8fed Ebrill, 2025 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Melinda Williams (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Lyn Williams, Lynford Thomas, Glyn Davies, Haf Hughes

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Hywel Ifans, Alan Henson, Dan Evans
2. PERSONOL Estynwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Alan Henson ar golli ei fam, Llinos, ar y 6ed o Ebrill.
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL – dim i'w datgelu**
4. **CADARNHAU COFNODION 11/3/24**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Lyn Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies a'u derbyniwyd yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**
   i. 7f (Tachwedd). **Cyfrif Banc**. Mae'r newidiadau ar gyfer bancio wedi eu cwblhau ac yn aros am gadarnhad gan Lloyds Bank. Oherwydd yr holl broblemau wrth gwblhau'r broses, codwyd cwŷn gan y Clerc yn erbyn y banc ond oherwydd natur y gŵyn nid oedd modd mynd â hi'n bellach.
   ii. **10. CFFI Felinfach.** Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth Bellach parthed y cais ariannol.
   iii. **11 b (Chwefror) Baw Cwn.** Trafodwyd ymateb Paul Edwards, Rheolwr Strydlun i'r cais am finiau bawb cŵn. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd, i ddechrau, printio a lamineiddio posteri i'w gosod yn yn y pentrefi.

6. **CYLLID**
   a. Tâl y Clerc mis Mawrth £217.84. Esboniodd y Clerc bod y taliad hwn wedi ei wneud heb ei awdurdodi gan aelod arall a hynny oherwydd yr amryfusedd a arweiniodd at godi'r gŵyn uchod. Dangoswyd 'print out' o'r taliad ac fe'i derbyniwyd fel cofnod cywir o'r tâl am fis Mawrth,
   b. Antur Cymru Gwasanaeth Cyflogres £86.40 (£14.4+TAW). Wedi mynd lan £1
   c. Cyngor Sir Ceredigion Goleuadau Stryd £1259.07 + TAW o £251.81 = £1510.88
   d. Lloyds Banc Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd 10/2/25 – 9/3/25 £4.25
   e. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif Llanfihangel Ystrad 10/2/25 – 9/3/25 - £5..01

f. Ad-daliad Zoom i'r Clerc.  Nodwyd nad oedd y taliad 0 £155.88 wedi ei nodi yng nghofnodion mis Mawrth (TAW £25.98)

**7. RHEOLAU ARIANNOL**

Dosbarthwyd taflen yn nodi'r trefniadau i'w dilyn ar gyfer bancio ar-lein ac i'w hychwanegu at y Rheolau Ariannol. Yn dilyn trafodaeth cynigiwyd eu derbyn gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams.
Derbyniwyd yn unfrydol.

**8. CYNLLUNIO**

a. **A250143 Cae Chwarae Felinfach.** Yn unol â'r ebost a anfonwyd ar 13/3/25 cadarnhawyd cefnogaeth i'r cais

**9. DI-WIFR NEUADDAU PENTREF.** I'w drafod yn y cyfarfod nesaf

**10. SEDDI GWAG.** Penderfynwyd cysylltu ag Adran Atheolaethau'r Sir i ddechraur broses o lenwi'r seddi gwag.

**11. GOHEBIAETH –** Dim i'w drafod

**12. UNRHYW FATER ARALL**

a. Cadarnhawyd bod y twll yn yr hewl gerl Castle Hill wedi ei llenwi.
b. Ers i goeden gwympo ger Bank View, Dihewyd yn dilyn storm Darragh, mae'r gwreiddiau'n achosi problem wrth fforch y gyffordd. Penderfynwyd cysylltu â'r Sir i ofyn pwy sy'n gyfrifol am waredu'r gwreiddiau er sicrhau diogelwch yr hewl.
c. Potiau Blodau. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cadw at drefen 2023/24. Bydd trigolion Temple Bar a Phont Creuddyn yn cymryd gofal dros eu potiau eu hunain.
d. Atogffwyd pawb gan y Cyng. Lynford Thomas bod Sensient yn cau yn ystod mis Mai. Nododd ei bod o fudd i bawb weld y ffatri ar waith unwaith eto ac yn enwedig i'r rhai hynny sydd wedi colli eu gwaith.
e. Cinio'r Cadeirydd. Penderfynwyd cynnal y ginio eleni ar 16eg Mai yn y Swan, Llannon.

**13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF a'r AGM**

Mai 13eg yn Neuadd Felinfach am 7.30 o'r gloch.